# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Iau, 28 Medi 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd M.A. Morgan

**Aelodau Annibynnol:**
M. Dodd ac A. Williams

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 2.00 - 3.10 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B.A.L. Roberts a G.B. Thomas

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai angen i'r Pwyllgor ystyried penodi Cadeirydd newydd yn dilyn ymddiswyddiad Mr C Downward fel Cadeirydd ac fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ac, yn dibynnu ar y penodiad hwnnw, Is-gadeirydd newydd.

**PENDERFYNWYD**
**3.1 Penodi Mr A. Morgan yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau**
**3.2 Penodi Mrs M. Dodd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau.**

## 4. LLOFNODI FEL COFNOD CYWR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y:-

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 a 9 Mehefin 2017 yn gofnodion cywir.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2016/2017

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2016/17 a oedd yn ymgorffori'r Datganiad Cyfrifon.

Nododd y Pwyllgor fod y pwyntiau allweddol a godwyd yn yr adroddiad fel a ganlyn:

- Cynnydd o 13% mewn ymholiadau a chwynion yn ymwneud â chamweinyddu ledled Cymru;
- Lleihad o 14% mewn cwynion yn ymwneud â chôd ymddygiad ledled Cymru;
- Cynnydd o 19% yn nifer y cwynion yn ymwneud â chôd yr ymchwiliwyd iddynt;
- Cynnydd o 38% yn nifer yr ymchwiliadau yn ymwneud â chôd a ddatgelodd dystiolaeth o dorri'r Côd.

Gan gyfeirio'n benodol at Gyngor Sir Caerfyrddin, nodwyd bod cyfanswm o 47 o gŵynion yn ymwneud â chamweinyddu wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn. O'r rheiny, roedd 40 naill ai'n ymwneud ag awdurdodaeth, wedi'u gwneud yn rhy gynnar, neu wedi'u cau ar ôl derbyn ystyriaeth gychwynnol, cafodd 5 eu datrys yn wirfoddol, cafodd un ei chadarnhau, ac roedd un arall na chafodd ei chadarnhau. Roedd un gŵyn yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad a wnaed yn erbyn cynghorydd sir hefyd wedi cael ei chau ar ôl rhoi ystyriaeth gychwynnol iddi.

Gyda golwg ar gŵynion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad yn erbyn Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir Gaerfyrddin, roedd yr Ombwdsmon wedi delio ag 11 o gŵynion yn erbyn Cynghorwyr Cymuned yng Nghyngor Tref Cwmaman (1), Cyngor Tref Cydweli (1), Cyngor Gwledig Llanelli (6), Cyngor Tref Llanelli (1) a Chyngor Cymuned Llangennech (2). Nodwyd nad oedd unrhyw un o'r achosion hyn wedi golygu cymryd unrhyw gamau disgyblu.

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol at y chwe chŵyn a gafwyd yn erbyn Cyngor Gwledig Llanelli a dywedodd y byddai'n darparu Hyfforddiant Côd Ymddygiad ar gyfer yr Awdurdod hwnnw, ar ei wahoddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. COFLYFR CÔD YMDDYGIAD

Ystyriodd y Pwyllgor y rhifyn diweddaraf o ‘Goflyfr Côd Ymddygiad’ Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn rhoi crynodeb o'r 12 o ymchwiliadau côd yn ymwneud ag aelodau o Gynghorau Sir a Chynghorau Cymuned a gwblhawyd yn ystod y chwarter blaenorol.

O'r 12 hynny, nododd y Pwyllgor fod tri o bwys arbennig gan eu bod yn ymwneud â dau achos a gyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Powys ac un a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru, gyda chopïau o'r dyfarniadau ym mhob un o'r tri achos hynny wedi cael eu hatodi i adroddiad y Pennaeth Gweinyddiaeth a’r Gyfraith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. HYFFORDDIANT YNGHYLCH Y CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORWYR SIR

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod sesiwn hyfforddi wedi'i threfnu ar gyfer pob aelod o'r Cyngor ar Gôd Ymddygiad yr Aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mai 2017, a bod 43 o gynghorwyr yn bresennol ynddynt.

Trafododd y Pwyllgor yr angen am drefniadau hyfforddiant dilynol, er enghraifft adolygiad ymhen dwy flynedd, atgoffa aelodau am yr angen i fod yn ymwybodol o'r côd neu wahodd aelodau i fynd i hyfforddiant a ddarperir i'r Cynghorau Tref a Chymuned. Awgrymodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y gellid cynnal unrhyw drafodaeth am hyfforddiant ychwanegol i aelodau yn y Flwyddyn Newydd pan fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu hyfforddiant i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**7.2 bod y broses o ystyried darparu Hyfforddiant Côd Ymddygiad ychwanegol i'r Cynghorwyr Sir yn cael ei gohirio tan y flwyddyn newydd pryd y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu hyfforddiant i'r Cynghorau Tref a Chymuned.**

## 8. HYFFORDDIANT YNGHYLCH Y CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ddwy sesiwn hyfforddi a gynhaliwyd ar 29 Mehefin and 6 Gorffennaf, 2017 ynglŷn â Chôd Ymddygiad yr Aelodau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd 103 o bobl yn bresennol ynddynt a oedd yn cynrychioli ystod eang o Gynghorau o bob rhan o'r Sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9. PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru o'r enw “Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad” sydd yn nodi ei gynigion ar gyfer cyflwyno ystod eang o wasanaethau cyngor ar sail ranbarthol, ond gan gadw'r 22 Awdurdod Unedol presennol. Nodwyd, tra oedd y Papur yn canolbwyntio ar ranbartholi'r gwasanaethau a ddarperir, ei fod yn cynnwys nifer o gynigion sydd â'r potensial o gael effaith arwyddocaol ar y Pwyllgor Safonau sef:

- Gosod dyletswyddau statudol penodol ar Gynghorwyr mewn perthynas â'r modd y maent yn ymgysylltu â'r cyhoedd. (‘Dyletswyddau Perfformiad Rhagnodedig’)
- Mae'r Pwyllgorau Safonau i gael clywed am achosion ble honnir bod Cynghorwyr wedi methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn
- Gofyniad ar i Bwyllgorau Safonau ymgynghori â Chynghorwyr a'u hyfforddi mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn
- Gosod dyletswyddau statudol penodol ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo safonau ymddygiad da o fewn eu grŵp a chydweithredu â Phwyllgorau Safonau wrth weithredu eu swyddogaethau
- Gosod dyletswydd ar Gynghorwyr Tref a Chymuned i ystyried eu hanghenion am hyfforddiant a chynllunio ar eu cyfer
- Newidiadau posibl i Côd Ymddygiad yr Aelodau i adlewyrchu dyletswydd Cynghorwyr i weithredu er budd eu rhanbarth, yn ogystal â'r awdurdod lleol y maent yn aelod ohono
- Dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r awdurdod mewn perthynas â'r flwyddyn honno sy'n disgrifio sut y cafodd

swyddogaethau'r pwyllgor eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Mae hynny'n cynnwys gofyniad i asesu i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i hyrwyddo safonau ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad**

## 10. CWYNION A CHANMOLIAETH

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn ynghylch Cwynion a Chanmoliaeth a oedd yn rhoi dadansoddiad o'r cwynion a'r sylwadau canmol a ddaethai i law'r Awdurdod yn ystod 2016/17.

Adroddwyd bod yr Awdurdod wedi cael 731 o gŵynion yn ystod 2016/17 o gymharu â 501 yn 2015/16, gyda'r cynnydd i raddau helaeth yn cael ei dadogi i godiad sylweddol yn nifer y cwynion yn ymwneud â'r gwasanaeth casglu gwastraff. Ymatebwyd i gyfanswm o 693 o gŵynion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys nifer a oedd wedi cael eu cario ymlaen o flwyddyn flaenorol y cyngor. Cododd nifer yr achosion yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod amser gofynnol i 74%, sydd yn cynrychioli gwelliant sylweddol dros 2014/15 a 2015/16. Mewn perthynas â nifer y sylwadau canmoliaethus a gafwyd, nodwyd eu bod wedi gostwng rywfaint o 542 i 515.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 11. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD G SQUIRES

Ystyriodd y Pwyllgor gais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Gloria Squires o Gyngor Cymuned Llanismel am ganiatáu gollyngiad yn unol â darpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â cheisiadau am gymorth ariannol a gyflwynwyd i'r Cyngor gan Glwb Pensiynwyr Glanyfferi a Phlwyf Unedig Llanismel.

Adroddwyd bod cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Squires fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10 (2) (a) (1x) (ee) yn yr ystyr bod y busnes dan sylw yn ymwneud â chlwb preifat neu gymdeithas sy'n gweithredu yn ardal yr Awdurdod lle'r oedd hi'n aelod.

Roedd buddiant y Cynghorydd Squires hefyd yn rhagfarnol gan y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd oedd yn gwybod y ffeithiau perthnasol ystyried bod y buddiant mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ddylanwadu ar farn y Cynghorwyr ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Squires wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliad 2 (d) (e) (f) (g) a (h) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiad) (Cymru) 2001.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Pwyllgor y dylai, wrth ystyried y cais, nodi nad oedd paragraffau 2 (e) a (g) yn berthnasol yn yr achos hwn ac y byddai paragraff (h) ond yn caniatáu i'r Cynghorydd Squires siarad (ond nid pleidleisio na chyflwyno sylwadau ysgrifenedig).

Yn dilyn trafodaeth fanwl

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod gollyngiad yn cael ei ganiatáu o dan Reoliad 2 (d) (f) a (h) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Gloria Squires i SIARAD yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanismel mewn perthynas ag unrhyw geisiadau am gymorth ariannol a ddaw oddi wrth Glwb Pensiynwyr Glanyfferi a Phlwyf Unedig Llanismel tan ddiwedd cyfnod eu tymor presennol yn y swydd.**

## 12. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORWYR GARETH THOMAS, JEAN LEWIS, KEN HOWELL, TYSSUL EVANS, MANSEL CHARLES, EIRWYN WILLIAMS AC ANN DAVIES

Ystyriodd y Pwyllgor geisiadau a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Sir Gareth Thomas, Jean Lewis, Ken Howell, Tyssul Evans, Mansel Charles, Eirwyn Williams ac Ann Davies am ganiatáu gollyngiad yn unol â darpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â materion yn ymwneud â ffermio ac amaeth neu sy'n debygol o gael effaith ar y maes hwnnw.

Adroddwyd bod cais am ollyngiad wedi'i wneud gan bob Cynghorydd oherwydd y gallent, o bosibl, fod â buddiant personol mewn materion o'r fath yn rhinwedd paragraffau 10(2)(a)(i), 10(2)(a)(iv), 10(2)(b)(i) a 10(2)(b)9ii) o'r Côd Ymddygiad yn yr ystyr eu bod i gyd naill ai'n ffermio yn y Sir, yn berchen ar dir fferm sy'n cael ei ffermio gan bobl eraill, neu fod ganddynt gymdeithion personol agos a oedd yn ffermio.

Roedd buddiant yr aelodau hefyd yn rhagfarnol gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel ei fod yn dylanwadu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorwyr Sir wedi gofyn am ollyngiad o dan reoliadau 2 (d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Atgoffodd Rheolwr Dro Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol y Pwyllgor eu bod yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2016 (gweler cofnod 7 ac 8) wedi caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Gareth Thomas a'r Cynghorydd Jean Lewis i siarad, ond nid pleidleisio, ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas ag unrhyw drafodaethau yn ymwneud â ffermio yn gyffredinol tan ddiwedd eu cyfnod presennol yn y swydd yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017.

Roedd y Pwyllgor wrth ystyried y cais yn ystyriol o'r sefyllfa sef bod chwech o'r saith aelod a oedd yn gofyn am ollyngiad yn aelodau o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor y byddai'n ofynnol iddynt ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer y gymuned amaethyddol. Mynegwyd barn ynghylch y posibilrwydd y byddai gwrthdaro buddiannau yn codi yn rhinwedd y ffaith eu bod yn aelodau o'r Pwyllgor hwnnw, ac ynghylch yr angen i fonitro nifer yr achlysuron/amgylchiadau y byddai unrhyw ollyngiad yn cael ei ddefnyddio. Yn dilyn trafodaeth fanwl

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2(d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i'r Cynghorwyr Sir Gareth Thomas, Jean Lewis, Ken Howell, Tyssul Evans, Mansel Charles, Eirwyn Williams ac Ann Davies i SIARAD, OND NID PLEIDLEISIO, A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â ffermio ac amaeth neu sy'n debygol o gael effaith ar y maes hwnnw, tan 30 Medi 2018.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**